HYSBYSIAD STATUDOL I NEWID YSTOD OEDRAN
YSGOL UWCHRADD JOHN SUMMERS, QUEENSFERRY, SIR Y FFLINT A CHAU
YSGOL UWCHRADD JOHN SUMMERS, QUEENSFERRY.

CYNGOR SIR Y FFLINT

Hysbysir, yn unol ag Adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, fod Cyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug ("yr awdurdod lleol"), ar ôl ymgynghori â'r bobl briodol, yn bwriadu: -

- **Gostwng ystod oedran Ysgol Uwchradd John Summers, Campws Queensferry, Ffordd Caer, Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint, CH5 1SE o 11-18 i 11-16 o 31 Awst 2016 ymlaen.**
- **Cau Ysgol Uwchradd John Summers, Campws Queensferry, Ffordd Caer, Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint, CH5 1SE ar 31 Awst 2017.**

Ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg yw Ysgol Uwchradd John Summers a chaiff ei chynnal gan yr awdurdod lleol.

Cynhaliodd yr awdurdod lleol ymgynghoriad cyn penderfynu cyhoeddi'r cynigion. Mae'r adroddiad ar yr ymgynghoriad, sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan y rhai yr ymgynghorwyd â nhw, ymatebion y cynigydd, a barn Estyn ar gael yn www.siryfflint.gov.uk neu gofynnwch am gopi drwy anfon e-bost at 21stcenturyschools@flintshire.gov.uk

Bwriedir gostwng ystod oedran Ysgol Uwchradd John Summers o 11-18 i 11-16 o 31 Awst 2016 ymlaen.

Bwriedir cau Ysgol Uwchradd John Summers ar 31 Awst 2017.

Bydd y disgyblion hynny sydd wedi cofrestru yn Ysgol Uwchradd John Summers ac sydd am gael addysg ôl 16 (chweched dosbarth) yn trosglwyddo i'r ganolfan ôl-16 yng Ngholeg Cambria, neu ddarpariaeth addas arall y byddant yn ei dewis, os bydd lle ar gael iddynt.

Nid oes rhaid ystyried trefniadau cludiant i'r disgyblion hynny a fydd yn trosglwyddo o Ysgol Uwchradd John Summers i'r ganolfan chweched dosbarth yng Ngholeg Cambria gan nad oes gofyniad statudol i ddarparu cludiant i ddysgwyr ôl-16.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnig bod y disgyblion presennol yn mynd i naill ai Ysgol Uwchradd Cei Connah, Ysgol Uwchradd Dewi Sant neu Ysgol Uwchradd Penarlâg; y tair ohonynt yn ysgolion cymunedol cyfrwng Saesneg. Bydd y rhieni'n cael dewis i'w plant fynd i un o'r ysgolion hyn cyhyd ag y bod digon o le ar gael iddynt. Gall rhieni ddewis un o'r tair ysgol uchod neu ddewis ysgol arall, a bydd y Awdurdod Lleol yn

cydymffurfio â'u dewis yn amodol ar Adran 86(3) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Caiff trefniadau i gludo disgyblion 11-16 oed presennol Ysgol Uwchradd John Summers eu cynllunio'n unol â Pholisi Cludiant Disgyblion yr Awdurdod Lleol.

Caiff unrhyw un wrthwynebu'r cynnig cyn pen 28 diwrnod ar ôl y dyddiad y cyhoeddwyd y cynnig, hynny yw erbyn 16 Tachwedd 2015.

Os oes gennych wrthwynebiad, dylech ysgrifennu at Ian Budd, Prif Swyddog, Cyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6ND neu anfon e-bost at 21stcenturyschools@flintshire.gov.uk

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiad a ddaw i law cyn diwedd y cyfnod priodol, ac na chânt eu tynnu'n ôl yn ysgrifenedig, ynghyd â sylwadau'r Cyngor.

O dan Adran 50 o'r Ddeddf, bydd yn rhaid i Weinidog Cymru gymeradwyo'r cynnig hwn p'un a cheir gwrthwynebiad iddo ai peidio, gan ei fod yn effeithio ar addysg chweched dosbarth.

Cyn pen 35 diwrnod ar ôl y cyfnod sydd ar gael i wrthwynebu'r cynnig, rhaid i'r Awdurdod Lleol anfon copi o'r dogfennau a restrir yn is-adran (4) o adran 50 o'r Ddeddf at Weinidog Cymru.

Llofnod



Ian Budd

Prif Swyddog – Addysg ac Ieuenctid
Ar ran Cyngor Sir y Fflint

16 Hydref 2015

Nodyn esboniadol

(Nid yw'r nodyn esboniadol hwn yn rhan o'r Hysbysiad ond fe'i cynigir er mwyn esbonio'r sefyllfa)

1. Mae'r Cyngor yn bwriadu gostwng ystod oedran Ysgol Uwchradd John Summers o 31 Awst 2016 ymlaen. Ysgol uwchradd gymunedol cyfrwng Saesneg yw Ysgol Uwchradd John Summers.

2. Mae'r Cyngor yn bwriadu cau Ysgol Uwchradd John Summers ar 31 Awst 2017. Ysgol uwchradd gymunedol cyfrwng Saesneg yw Ysgol Uwchradd John Summers.

3. Roedd y cynnig wedi'i gynnwys yn y 'Strategaeth Moderneiddio Ysgolion' a baratowyd gan y Awdurdod Lleol i fynd i'r afael â materion gan gynnwys recriwtio penaethiaid, lleoedd gwag, a chynaladwyedd ysgolion.

4. Yn ôl cyfrifiad diwethaf yr ysgol ym mis Ionawr 2015, roedd gan Ysgol Uwchradd John Summers 314 (blwyddyn 7-11) a 49 (Blwyddyn 12-13) o ddisgyblion llawn amser ar gofrestr o 363 ond roedd lle i 565 o ddisgyblion llawn amser. Ym mis Ionawr 2015, roedd 202 o leoedd gwag, sy'n cyfateb i 35.75% o leoedd gwaith.

5. Mae'r sail resymegol dros y cynnig wedi'i osod allan yn y ddogfen ymgynghori a ddosbarthwyd ym mis Mehefin 2015. Mae rhagor o gopïau o'r ddogfen hon ar gael ar gais yn y cyfeiriad uchod.

6. Mae copi o Bolisi Derbyn Disgyblion y Cyngor ar gael gan y Tîm Derbyn Disgyblion yn yr Adran Addysg ac Ieuenctid yn y cyfeiriad uchod.

7. Mae copi o Bolisi Cludiant Disgyblion y Cyngor i'w weld yn www.siryfflint.gov.uk

8. Mae'r Hysbysiad hwn yn nodi dechrau cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod rhwng 16 Hydref 2015 a 16 Tachwedd 2015 ac mae'n nodi'r cyfeiriad y dylid ei ddefnyddio i anfon gwrthwynebiad ysgrifenedig.